# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Troseddau*

## 2 Troseddau

(1) Mae'n drosedd i berson sy'n fanwerthwr alcohol—

(a) cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, neu

(b) awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru,

am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris cymwys am yr alcohol.

(2) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos i'r person gymryd camau rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi ei chyflawni.

(3) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar yr amddiffyniad yn is-adran (2), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.

(4) Mae'n amherthnasol at ddibenion is-adran (1)(b) a yw'r awdurdodiad yn digwydd yng Nghymru neu yn rhywle arall.

(5) At ddibenion yr adran hon ac adran 6, ystyr "pris gwerthu", mewn perthynas ag alcohol, yw ei bris gan gynnwys TAW a phob treth arall.

(6) Yn Atodlen 4 (trwydded bersonol: troseddau perthnasol) i Ddeddf 2003, ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"2A An offence under the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 2.